Office of the Traffic Commissioner Wales
Swyddfa'r Comisiynydd Traffig Cymru

PSV350

# Cais i gofrestru gwasanaeth bws safonol yn Lloegr a Chymru

| Nodwch |
| --- |
| Ar gyfer gwasanaethau bws lleol yn Lloegr mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch cais i'r awdurdod lleol perthnasol 28 diwrnod cyn ei anfon at y Comisiynydd Traffig. |

**Gwybodaeth am y ffurflen hon**

Mae'r ffurflen hon i gofrestru gwasanaeth bws lleol safonol gyda'r Comisiynydd Traffig yn Lloegr neu Chymru. Ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl o fewn ardaloedd lle nad y Comisiynydd Traffig yw'r awdurdod cofrestru e.e. Llundain a rhai ardaloedd sydd â Phartneriaeth Uwch, dylech geisio cyngor gan yr awdurdod perthnasol.

**Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon os ydych am gofrestru gwasanaeth hyblyg (yn Loegr neu yng Ngymru). Rhaid gwneud ceisiadau am wasanaethau hyblyg gan ddefnyddio ffurflen PSV529.**

Cyfeiriwch at y nodiadau atodedig cyn llenwi'r ffurflen hon.

**Rhaid i chi anfon y ffi gywir gyda'r ffurflen hon.**

Gellir cael arweiniad pellach ar wasanaethau bws lleol yma:

Bydd y Canllaw i gofrestru gwasanaethau bysiau lleol hefyd yn eich helpu i gwblhau eich cais.

Os ydych yn cofrestru gwasanaeth yn Lloegr darllenwch y Canllawiau ar hysbysu awdurdod lleol am wasanaeth bws.

Cyfeiriwch at Ddogfen Statudol yr Uwch Gomisiynydd Traffig ar Weithrediadau PSV am ragor o wybodaeth.

**Mae rhoi gwybodaeth ffug neu addasu'r ffurflen gais yn drosedd a gall arwain at erlyniad.**

**Llenwi'r ffurflen**

Cwblhewch yr holl gwestiynau perthnasol yn y meysydd a ddarperir. Lle bod angen rhagor o le, naill ai rhowch yr wybodaeth hon ar gorff yr e-bost os ydych yn ei chyflwyno'n electronig neu ar ddalen o bapur ar wahân os ydych yn ei chyflwyno drwy'r post.

Gallwch naill ai:

- Cwblhau'r ffurflen yn llawn yn electronig a'i chyflwyno gyda'r holl ddogfennau ategol sydd wedi'u hatodi drwy e-bost at: bus-registrations@otc.gov.uk

- Cwblhau'r cais gan ddefnyddio inc du gan sicrhau bod y ffurflen wedi cael ei chwblhau'n llawn a'i chyflwyno gyda'r holl dystiolaeth ategol drwy'r post i:

  Swyddfa'r Comisiynydd Traffig
  Quarry House
  Quarry Hill
  Leeds
  LS2 7UE

**RHAID I CHI BEIDIO Â DECHRAU GWEITHREDU'R GWASANAETH HWN TAN EIN BOD WEDI DERBYN HYSBYSIAD O DDERBYN EICH CAIS A CHADARNHAU'R DYDDIAD DECHRAU**

## MANYLION YR YMGEISYDD

**1. Enw lle cedwir eich trwydded gweithredwr PSV neu drwydded bws cymunedol**

**2. Rhif trwydded gweithredwr PSV neu rif(au) trwydded bws cymunedol ar gyfer y cofrestriad hwn** (er enghraifft PB1234567 neu CB001234)

**3. Manylion cyswllt**

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth gan gynnwys cod post

Rhif Ffôn / ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

**4. Dyddiad cychwyn arfaethedig**
(gweler nodyn 3)

**Dyddiad gorffen arfaethedig**
(os yw'n berthnasol ac yn hysbys)

**5. Rhif llwybr neu enw a ddefnyddir i adnabod y gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw lythrennau**
(e.e. 17A, 17B. Lle mae gan gofrestriad rifau gwasanaeth lluosog gweler nodyn 4)

**6. Cyfeiriad llawn o ble fydd y gwasanaeth yn dechrau?** (gweler nodyn 5)

Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i nodi'r union leoliad, a allai gynnwys: enw stryd, enw gorsaf fysiau, gorsaf reilffordd, ysgol ac ati a phentref, tref neu ddinas a chod NaPTAN.

| | |
|---|---|
| Gorsaf fysiau / rheilffordd neu | |
| bwynt adnabod | |
| e.e. ysgol | |
| Enw stryd | |
| Pentref / tref / dinas | |

**7. Cyfeiriad llawn o ble fydd y gwasanaeth yn gorffen?** (gweler nodyn 5)

Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i nodi'r union leoliad, a allai gynnwys: enw stryd, enw gorsaf fysiau, gorsaf reilffordd, ysgol ac ati a phentref, tref neu ddinas a chod NaPTAN.

| | |
|---|---|
| Gorsaf fysiau / rheilffordd neu | |
| bwynt adnabod | |
| e.e. ysgol | |
| Enw stryd | |
| Pentref / tref / dinas | |

**8. Prif bwyntiau ar y ffordd, byddwch mor glir â phosibl**
(dewisol - gweler nodyn 6)

**9. Pa fath o wasanaeth fyddwch chi'n rhedeg?** (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☐ Gwasanaeth stopio arferol

☐ Gwibdaith neu daith (hepgorwch gwestiynau 10 i 13 ac ewch i gwestiwn 14)

☐ Arosfannau cyfyngedig

☐ Gwasanaeth ysgolion neu waith

☐ Stopio a theithio

☐ Arall, rhowch fanylion isod:

**10A. Pa ddiwrnodau'r wythnos fydd y gwasanaeth yn gweithredu?**

**10B. Pa mor aml fydd y gwasanaeth yn gweithredu ar y diwrnodau gweithredu?**

**10C. A fydd lefel wahanol o amlder ar wyliau banc a gwyliau cyhoeddus?**

(Rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion hysbysu a nodir yn nodyn 7)

Bydd ☐ Na fydd ☐

**11. A fydd y gwasanaeth yn defnyddio pob safle bws cydnabyddedig ar hyd y llwybr?**

Os Na fydd, e.e. mae'n wasanaeth stopio cyfyngedig, rhowch fanylion llawn am union leoliad mannau aros ar y daflen disgrifiad o'r llwybr.

Bydd ☐ Na fydd ☐

**12. A fydd angen unrhyw symudiadau troi neu symud nôl ar hyd y llwybr?**

Os Bydd, rhowch fanylion ar y daflen disgrifiad llwybr.

Bydd ☐ Na fydd ☐

**13. Ydy'r gwasanaeth yn llwybr cylchol?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

**14. A fydd unrhyw ran o'r gwasanaeth sydd heb fannau aros sefydlog, e.e. a fydd yn gweithredu fel stopio a theithio?**

Os Bydd, rhowch fanylion ar y daflen disgrifiad llwybr.

Bydd ☐ Na fydd ☐

**15. A yw eich gwasanaeth yn cael ei gefnogi gan gymorthdaliadau gan awdurdod lleol neu PTE?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐ Yn rhannol ☐

**16. Rhowch enw(au) yr awdurdod neu'r PTE sy'n darparu'r cymhorthdal**

## MEYSYDD GWEITHREDU

**17. Ym mha Ardal(oedd) Traffig y bydd y gwasanaeth yn gweithredu?**
(gweler Atodiad 1 y Canllaw i gofrestru gwasanaethau bysiau lleol ar gyfer ardaloedd a gwmpesir gan bob Ardal Traffig)

**18. Bydd y gwasanaeth yn gweithredu yn ardal(oedd) y cynghorau sir, awdurdodau unedol a PTEs canlynol**

### Gwasanaethau a weithredir yn Lloegr

Rhaid i chi anfon copi o'r ffurflen hon gyda'r dogfennau ategol at unrhyw un o gynghorau sir, awdurdodau unedol a PTE Lloegr y bydd y gwasanaeth yn gweithredu yn eu hardal, CYN cyflwyno'ch cais i'r comisiynydd traffig. Yna bydd gan yr awdurdodau 28 diwrnod i ystyried eich cais. Rhaid i chi hefyd roi cadarnhad bod yr awdurdod lleol wedi ystyried eich cais.

Mae profforma ynghlwm wrth gefn y ffurflen hon.

### Gwasanaethau a weithredir yng Nghymru

Ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithredu yng Nghymru, nid oes gofyniad i roi hysbysiad o flaen llaw i'r awdurdod lleol perthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid anfon copi o'r cais a'r dogfennau ategol at yr awdurdod lleol perthnasol ar yr un pryd ag y anfonir at y comisiynydd traffig. Os mai dim ond yng Nghyrmu y caiff y gwasanaeth ei weithredu, nid oes angen llenwi'r profforma.

**Rwy'n cadarnhau fod copi o'r cais hwn a'r holl ddogfennau ategol wedi cael eu cyflwyno i'r cyrff perthnasol ar y dyddiad canlynol:**

## CYNLLUNIAU PARTNERIAETH A CHYNLLUNIAU MASNACHFREINTIO

Os ydych yn ansicr os oes Cynllun Partneriaeth Uwch, Cynllun Partneriaeth Ansawdd, Cynllun Partneriaeth Datblygedig neu Gynllun Masnachfraint yn eu lle neu y rhoddwyd rhybudd ar eu cyfer. Cysylltwch â'r awdurdodau lleol ym mha ardal y bydd y gwasanaeth yn gweithredu, efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gofrestru gwasanaethau bws lleol.

### Cynlluniau Partneriaeth Uwch

**19. A fydd unrhyw ran o'r gwasanaeth yn gweithredu drwy ardal sy'n destun Cynllun Partneriaeth Uwch, naill ai yn ei le neu y rhoddwyd rhybudd ar ei gyfer?**
Os yw'r gwasanaeth yn rhedeg o fewn ardal cynllun ond wedi'i eithrio o'r cynllun hwnnw dewiswch Bydd (gwasanaeth eithriedig).

Bydd ☐ Bydd (gwasanaeth eithriedig) ☐ Na fydd ☐ (ewch i gwestiwn 21)

Os Bydd, rhowch enw'r awdurdod trafnidiaeth lleol neu'r awdurdod arweiniol

| |
|---|
| |

**20. A yw'r gwasanaeth yn destun unrhyw lwybr neu ofynion gweithredol o dan y Cynllun Partneriaeth Uwch?** (gweler nodyn 9)

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os Ydy, rhowch fanylion y llwybr / gofynion gweithredol isod

| |
|---|
| |

Rwy'n cadarnhau drwy lofnodi datganiad y cais fy mod yn deall llwybr a gofynion gweithredol y Cynllun Partneriaeth Uwch ac y byddaf yn cydymffurfio â'r gofynion hynny fel y maent yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn.

**Cynlluniau Partneriaeth Ansawdd a Chynlluniau Partneriaeth Datblygedig**

**21. A fydd unrhyw ran o'r gwasanaeth yn gweithredu trwy faes sy'n destun Cynllun Partneriaeth Ansawdd neu Gynllun Partneriaeth Datblygedig, naill ai yn ei le neu y rhoddwyd rhybudd ar ei gyfer?**

Bydd ☐ Na fydd ☐ (ewch i gwestiwn 23)

Os Bydd, rhowch enw'r awdurdod trafnidiaeth lleol neu'r awdurdod arweiniol

| |
|---|
| |

**22. A ydych chi'n bwriadu defnyddio unrhyw un o'r cyfleusterau neu'r mannau aros sy'n amodol ar fesur a ddarperir o dan Gynllun Partneriaeth Ansawdd neu Gynllun Partneriaeth Datblygedig wrth weithredu'r gwasanaeth hwn?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os dymunwch ddefnyddio'r cyfleusterau neu fan aros yn ddarostyngedig i fesur a ddarperir o dan Gynllun Partneriaeth Ansawdd neu Gynllun Partneriaeth Datblygedig bydd angen i chi naill ai lofnodi ymrwymiad y byddwch yn darparu'r gwasanaeth i'r safonau a nodir yn y Cynllun Partneriaeth Ansawdd neu Cynllun Partneriaeth Uwch, neu ddarparu cadarnhad bod y gwasanaeth hwn wedi'i eithrio rhag gorfod bodloni'r safonau hynny.

**NODYN:**

Ni chaiff gweithredwr gwasanaeth lleol ddefnyddio cyfleusterau neu fannau aros yn ddarostyngedig i fesur a ddarperir o dan Gynllun Partneriaeth Ansawdd neu Gynllun Partneriaeth Datblygedig heblaw ei fod wedi rhoi ymrwymiad ysgrifenedig i'r comisiynydd Ttaffig y bydd yn darparu'r gwasanaeth i'r safon a bennir yn y cynllun.

Nid yw ymrwymiadau'n berthnasol pan fod y gwasanaeth wedi'i eithrio o'r cynllun.

Os yw gweithredwr wedi cofrestru ymgymeriad gyda'r comisiynydd traffig ac wedyn yn methu â bodloni'r safonau, gall y comisiynydd traffig osod cosb neu gymryd camau yn erbyn trwydded y gweithredwr. Gall y gosb fod hyd at £550 am bob cerbyd y mae'r gweithredwr wedi'i drwyddedu i'w weithredu a/neu gall y comisiynydd traffig osod amod ar y drwydded yn gwahardd y gweithredwr rhag rhedeg rhai gwasanaethau lleol neu wasanaethau lleol o unrhyw ddisgrifiad.

## Cynlluniau Masnachfreintio

**23. A fydd unrhyw ran o'r gwasanaeth yn gweithredu drwy ardal lle mae Cynllun Masnachfraint mewn grym?**
Os Bydd, dylai'r cais i gofrestru'r gwasanaeth ddod i ben pan fydd y gwasanaeth yn dod i mewn i ardal y Cynllun Masnachfreinio (gweler nodyn 10)

Bydd ☐ Na fydd ☐

Os Bydd, rhowch enw'r awdurdod trafnidiaeth lleol neu'r awdurdod arweiniol

| |
|---|
| |

## DISGRIFIAD O'R LLWYBR

**Defnyddiwch y daflen disgrifiad llwybr trosodd i roi manylion yn ôl yr angen.**

### Gwasanaethau Safonol

- Rhowch ddisgrifiad llawn o'r llwybr yn ddigon manwl i ddangos yr holl ffyrdd y mae'n eu defnyddio. Os yw'r gwasanaeth am wyro oddi wrth y llwybr hwn ar gais, rhowch fanylion.
- Dangoswch yn glir unrhyw amrywiadau llwybr, ac eithrio gwaith byr, rydych yn bwriadu cynnwys yn eich gwasanaeth. Dylai amrywiadau fod ag o leiaf 50% yn gyffredin â'r prif lwybr. Os nad ydynt, bydd angen i chi gofrestru'r gwasanaethau ar wahân.
- Unrhyw bwyntiau amseru, mannau aros a phwyntiau terfyn ar hyd y llwybr lle byddwch yn aros yn hirach nag sydd angen i godi neu ollwng teithwyr.
- Manylion llawn symudiadau nôl a throi fel y disgrifir yng nghwestiwn 12.
- Stopiau i'w defnyddio ar wasanaeth stopio cyfyngedig fel y manylir yng nghwestiwn 11.
- Trefniadau stopio ar gyfer gwasanaethau (neu ran o wasanaeth) sydd heb fannau aros sefydlog, er enghraifft, gwasanaeth stopio a theithio.

### Gwibdeithiau a Theithiau

**Rhowch y manylion canlynol:**

- Llwybr cyflawn yn dangos yr holl fannau codi, dylai hwn gynnwys enwau strydoedd llawn.
- Dyddiadau'r flwyddyn y bydd y gwasanaeth hwn yn gweithredu, er enghraifft, 1 Hydref 2023 – 30 Ebrill 2023.
- Uchafswm nifer yr ymadawiadau cerbyd mewn unrhyw un diwrnod.

## Taflen Disgrifiad o'r Llwybr

**DOGFENNAETH ATEGOL ANGENRHEIDIOL**

**Darparwch y canlynol:**

- map (graddfa o 1:50,000) yn nodi'n glir y ffyrdd i'w defnyddio gan bob gwasanaeth, gan gynnwys amrywiadau llwybrau;
- taflen(ni) disgrifio llwybr ychwanegol os caiff ei ddefnyddio.
- copi o'ch amserlen lawn (sy'n gorfod dangos y diwrnod ac amserau eich gweithrediad ac eithriadau megis gwyliau cyhoeddus). Gweler nodyn 11. Os dymunwch newid yr amseriadau **mae'n rhaid i chi wneud cais i amrywio'r cofrestriad.**
- Ffurflen PSV350A os yw'r dyddiad a roddir yng Nghwestiwn 4 yn llai na 42 diwrnod
  (yn Lloegr) a 56 diwrnod (yng Nghymru) ar ôl y dyddiad rydych yn disgwyl i'r cais gael ei dderbyn. Gweler nodyn 3.
- Y ffi briodol a'r daflen 'Manylion Talu' isod, **fel atodiad ar wahân** os ydych yn talu â cherdyn, dylai sieciau fod yn daladwy i'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau.
- Y pro-fforma(u) wedi'u llenwi sy'n dangos bod yr Awdurdod Lleol wedi ystyried eich cais.

**DATGANIAD**

Rwy'n datgan,

- hyd eithaf fy ngwybodaeth, fod yr wybodaeth a roddais yn wir ac yn gywir.
- Rwyf wedi anfon copi o'r ffurflen hon a'r dogfennau ategol at bob un o'r awdurdodau lleol y bydd y gwasanaeth hwn yn gweithredu yn eu hardal a byddant yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cynllun awdurdodau lleol.

**Llofnodi** – cliciwch isod i lanlwytho llofnod electronig neu lofnodi'r ffurflen bapur yn gorfforol

| |
|---|
| |

**Dyddiad**

| |
|---|
| |

**Enw mewn PRIF LYTHRENNAU**

| |
|---|
| |

**Swydd**

| |
|---|
| |

**Diogelu Data**

Mae hysbysiad prosesu teg y Comisiynwyr Traffig yn dweud wrthych beth y gallwch ei ddisgwyl pan fydd comisiynydd traffig Prydain (y rheolydd data) yn casglu eich data. Bydd comisiynydd traffig yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol fel rhan o'i waith fel yr awdurdod cymwys ar gyfer asesu mynediad at alwedigaeth gweithredwyr trafnidiaeth ffordd. Gallwch weld yr hysbysiad prosesu teg yma: https://www.gov.uk/government/publications/traffic-commissioners-for-great-britain-privacy-notice.

Fel arall, gallwch ofyn am gopi papur drwy ffonio 0300 123 9000.

**NODWCH: mae'n drosedd rhoi gwybodaeth ffug yn y cais hwn**

Beth sydd angen i chi ei wneud

- Darllenwch y nodiadau canllaw uchod 'am y ffurflen hon' cyn llenwi'r ffurflen
- Sicrhewch eich bod wedi ei lofnodi
- Sicrhewch eich bod yn rhoi unrhyw ddogfennau ategol yn yr amlen gyda'ch ffurflen wedi'i chwblhau neu atodwch nhw i'r e-bost
- Dylid anfon y cais drwy e-bost at: bus-registrations@otc.gov.uk neu ei bostio i: Swyddfa'r Comisiynydd Traffig, Swyddfa Drwyddedu, Quarry House, Quarry Hill, Leeds LS2 7UE

Nid oes angen i chi argraffu'r dudalen hon na'i phostio atom.

## NODIADAU

### 1. Unwaith y bydd gwasanaeth wedi'i gofrestru

Unwaith y bydd y gwasanaeth hwn wedi cael ei gofrestru rydych wedi ymrwymo i'w redeg yn unol â'r manylion cofrestredig. Mae comisiynwyr traffig yn disgwyl i weithredwyr fonitro eu gwasanaethau eu hunain i wirio eu bod yn rhedeg yn brydlon ac yn ddibynadwy.

Os byddwch yn methu â darparu'r gwasanaeth fel y cofrestrwyd neu'n groes i adran 6 o Ddeddf 1985, gall y CT osod amod ar eich trwydded sy'n cyfyngu ar y gallu i weithredu gwasanaethau lleol.

Mae gan y comisiynydd traffig hefyd bwerau i osod cosb ariannol o hyd at £550 wedi'i luosi â chyfanswm y cerbydau rydych wedi'ch trwyddedu i'w defnyddio o dan yr holl drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus sydd gennych.

### 2. Gwasanaethau sydd â man aros yn Llundain neu lle mae Cynllun Masnachfreinio mewn grym

Os oes gan y gwasanaeth mannau aros yn un neu fwy o Fwrdeistrefi Llundain yn ardal Llundain Fwyaf, caniatad bydd angen an Transport for London. Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer y rhannau hynny o'r gwasanaeth sy'n gweithredu yn Llundain.

Dylech gysylltu â TfL am gyngor pellach: https://tfl.gov.uk/info-for/suppliers-and-contractors/london-service-permits

Ar gyfer Cynlluniau Masnachfreinio eraill dylech gysylltu â'r Awdurdod Lleol perthnasol.

### 3. Dyddiadau dechrau a gorffen

Dylai'r dyddiad cychwyn fod yn ddyddiad ac nid yn syml wedi'i nodi "cyn gynted â phosibl". Dylech roi o leiaf 42 diwrnod o rybudd i'r comisiynydd traffig yn Lloegr a 56 diwrnod o rybudd yng Nghymru o'ch bwriad i ddechrau'r gwasanaeth hwn, neu os ydych yn ddeiliad Trwydded Bws Cymunedol adran 22, o leiaf 14 diwrnod o rybudd. **Sylwch fod y cyfnod rhybudd hwn yn dechrau ar y diwrnod y bydd y comisiynydd traffig YN DERBYN eich cais.** Ar gyfer ceisiadau am wasanaethau sydd ag arosfannau yn Lloegr, mae hefyd yn ofynnol i chi gyflwyno'ch cais (a'r holl ddogfennau cysylltiedig) i'r awdurdodau lleol dan sylw o leiaf 28 diwrnod cyn cyflwyno'ch cais i'r comisiynydd traffig.

Os dymunwch i'r comisiynydd traffig ystyried cyfnod rhybudd byrrach, mae angen i chi hefyd lenwi ac atodi ffurflen PSV350A. Nid yw llenwi'r ffurflen yn caniatáu byr rybudd yn awtomatig. Mater i ddisgresiwn y comisiynydd traffig yw os gellir lleihau'r cyfnod rhybudd statudol. Bydd angen anfon y ffurflen hon hefyd at yr yr awdurdod

lleol ar gyfer yr ardaloedd lle bydd gan y gwasanaeth fannau aros 28 diwrnod cyn ei chyflwyno i'r comisiynydd traffig.

Mae'r canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol yn esbonio'r achosion cyfyngedig pan fydd cyfnod byrrach yn cael ei dderbyn.

Os mai'r bwriad yw gweithredu'r gwasanaeth am gyfnod cyfyngedig o amser a'ch bod yn gwybod ar ba ddyddiad pendant yr hoffech i'r gwasanaeth ddod i ben, dylech nodi hyn yn y blwch "dyddiad gorffen arfaethedig". Os nodir dyddiad bydd y gwasanaeth yn cael ei gofnodi fel un sydd wedi dod i ben unwaith y bydd y dyddiad wedi mynd heibio ac ni fydd yn rhaid i chi gwblhau canslo ffurfiol ar gyfer y gwasanaeth.

## 4. Rhif/enw'r llwybr

Os yw'r cofrestriad yn cynnwys sawl gwasanaeth gwahanol dylech nodi rhif neu enw pob llwybr. Er mwyn cael eu cofnodi o dan un cofrestriad rhaid i bob llwybr fod yn debyg. Dehonglir hyn bod yn rhaid i wasanaethau gael o leiaf 50% o'r llwybr yn gyffredin.

## 5. Mannau cychwyn a gorffen

Mae angen rhoi manylion llawn y mannau cychwyn a gorffen, er enghraifft

Man cychwyn: Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd, Sgwâr Canolog, Caerdydd
Man Gorffen: Gorsaf Penarth, Ffordd Stanwell, Penarth

**Nid yw'r canlynol yn dderbyniol.**

Man cychwyn: Caerdydd
Man gorffen: Penarth

## 6. Prif bwyntiau y gwasanaethir ar y ffordd

Mae'n ddewisol i weithredwr roi manylion y prif bwyntiau ar y llwybr y bydd y gwasanaeth yn ei weithredu. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i wasanaethau sy'n gwasanaethu trefi a phentrefi lluosog, neu leoedd o ddiddordeb sylweddol yng nghanol y llwybr, e.e. ysbyty, na fyddai fel arall yn amlwg o'r cychwyn a'r diwedd.

Bydd y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi gan y comisiynydd traffig.

## 7. Gwyliau banc a chyhoeddus

Os ydych yn bwriadu gweithredu gwasanaeth cyfyngedig e.e. gwasanaeth dydd Sul neu ddim gwasanaeth o gwbl ar wythnos sy'n cynnwys Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu unrhyw ŵyl banc arall, nodwch hyn yn eich cais.

Gellir amrywio gwasanaeth yn Lloegr a Chymru mewn perthynas ag unrhyw daith mewn wythnos sy'n cynnwys 24 Rhagfyr, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu unrhyw ŵyl banc heb amrywiad ffurfiol i'r cofrestriad, ar yr amod eich bod yn anfon hysbysiad o'ch bwriad i amrywio'r gwasanaeth o dan y darpariaethau hyn i'r comisiynydd traffig a phob awdurdod lleol perthnasol ddim hwyrach nag 21 diwrnod cyn i'r amrywiad ddod i rym.

At ddibenion y darpariaethau hyn mae wythnos yn dechrau ar ddydd Llun.

## 8. Meysydd Gweithredu

Fel y nodir ar y ffurflen mae'r ddeddfwriaeth a'r broses yn wahanol yn dibynnu os yw gwasanaeth yn gweithredu yn Lloegr neu yng Nghymru. Os yw'r gwasanaeth i weithredu yn Lloegr a Chymru, rhaid i chi gydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r cyfnodau rhybudd ar gyfer y diriogaeth berthnasol. Er enghraifft, ar gyfer adrannau 'Saesneg' y llwybr mae'n rhaid i chi roi rhybudd o flaen llaw i'r awdurdod lleol a 42 diwrnod o rybudd i'r comisiynydd traffig. Ar gyfer rhannau 'Cymraeg' y llwybr, nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgynghori â'r awdurdod lleol, ond mae angen y rhybudd arferol o 56 diwrnod. Dylai gweithredwyr ystyried y gwahaniaethau hyn wrth ystyried y cais i'r comisiynydd traffig a chynllunio yn unol â hynny.

## 9. Cynlluniau Partneriaeth Uwch

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod os yw'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn ardal sy'n destun Cynlluniau Partneriaeth Uwch neu gynllun tebyg ac a oes angen i'ch gwasanaeth gydymffurfio â gofynion y cynllun hwnnw. Gall y gofynion hyn gynnwys safonau llwybr neu weithredu e.e. trefniadau tocynnau. Os ydych yn ansicr dylech gysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol yn yr ardaloedd lle mae gan y gwasanaeth fannau aros.

Mewn rhai achosion lle mae gwasanaeth yn gweithredu'n gyfan gwbl o fewn ardal cynllun efallai y bydd angen i chi gofrestru'r gwasanaeth hwnnw gyda'r awdurdod lleol perthnasol ac nid y comisiynydd traffig. Gall yr awdurdod lleol neu Swyddfa'r Comisiynydd Traffig roi cyngor ar hyn.

Bydd gofyn i chi roi ymrwymiad i'r comisiynydd traffig y byddwch yn cydymffurfio â gofynion y cynllun. Os nad ydych eisoes wedi rhoi'r ymrwymiad hwn bydd gofyn i chi wneud hynny cyn i'r gwasanaeth ddod i rym.

## 10. Cynlluniau Masnachfreintio

Ni all y comisiynydd traffig gofrestru gwasanaethau o fewn ardal sy'n destun Cynllun Masnachfreinio. Os yw eich gwasanaeth yn rhedeg rhwng ardal fasnachfraint ac ardal nad yw'n fasnachfraint gall y comisiynydd traffig gofrestru'r gwasanaeth hyd at y pwynt lle mae'r Cynllun Masnachfreinio yn dechrau yn unig. Dylech gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol sy'n gyfrifol am y Cynllun Masnachfreinio i gofrestru'r gwasanaeth o fewn yr ardal fasnachfraint.

## 11. Amserlenni

Mae comisiynwyr traffig yn ei wneud yn ofynnol i weithredwyr enwebu Pwyntiau Amser nad ydynt yn fwy na 15 munud ar wahân. Lle mae'r amser rhedeg rhwng dau arhosfan yn fwy na 15 munud bydd y ddau stop yn dod yn Bwyntiau Amseru, yn yr achosion hyn rhaid cynnwys yr esboniad pam y mae'r amseriad yn cael ei ymestyn yn y cais.

Mae comisiynwyr traffig yn cydnabod y bydd amseroedd rhedeg llawer o wasanaethau yn amrywio yn ôl amser o'r dydd a/neu ddiwrnod o'r wythnos i ystyried gwahanol gyflymderau gweithredu. Dylai'r rhan fwyaf o deithiau fodloni'r gofyniad 15 munud. Traffig
bydd comisiynwyr yn arfer eu disgresiwn o ran Pwyntiau Amser ar gyfer trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw.

## 12. Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau

Efallai y byddwch yn gymwys i gael grant sy'n daladwy i weithredwyr gwasanaethau lleol cofrestredig ar yr amod nad yw'r gwasanaethau yn wibdeithiau neu'n deithiau. Mae rhai amodau yn berthnasol, a cheir manylion amdanynt ar [www.gov.uk/government/collections/bus-services-grants-and-funding](www.gov.uk/government/collections/bus-services-grants-and-funding).

**MANYLION TALU**

Gallwch dalu'r ffi ymgeisio gyda cherdyn credyd/debyd neu siec/archeb bost. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i "Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau". **Peidiwch ag anfon arian parod.**

Ni fydd eich cais yn cael ei ystyried hyd nes y telir ffi. Os ydych yn anfon manylion eich cerdyn credyd/debyd drwy'r post, dylech ystyried defnyddio dull diogel.

Mae manylion y ffioedd presennol i'w gweld ar ein gwefan ar: https://www.gov.uk/government/publications/bus-registration-and-permits-scale-of-fees

Os ydych yn talu gyda siec, anfonwch hwn gyda'ch cais fel yr uchod. Os ydych yn talu gyda cherdyn credyd neu ddebyd, cwblhewch y manylion isod neu rhowch fanylion pan fydd aelod o'r tîm trwyddedau yn cysylltu â chi ar y manylion a ddarparwyd yng nghwestiwn 3.

Rwyf drwy hyn yn awdurdodi DVSA i gymryd y swm o £ ☐ o fy nghyfrif, y mae y manylion wedi'u rhestri isod, mewn perthynas â'm cais am drwydded bws safonol neu fawr. Cymerir taliad pan ddaw'r cais i law.

**Math o gerdyn** (ticiwch un)

Mastercard ☐ Visa ☐ Visa Debit/Delta ☐ Maestro ☐

Enw Deiliad y Cerdyn (yn union fel mae'n ymddangos ar y cerdyn)

**Rhif Cerdyn Llawn**

**Dyddiad dod i ben** Mis Blwyddyn **Rhif Diogelwch y Cerdyn**

**Rhif cyhoeddiad** (Maestro yn unig) **Dyddiad Cychwyn** (Maestro yn unig) Mis

Mae rhif diogelwch eich cerdyn i'w weld ar ddiwedd y stribed llofnod ar gefn y cerdyn. Nodwch y tri digid olaf.

**Llofnod deiliad y cerdyn** – cliciwch isod i lanlwytho llofnod electronig neu lofnodi'r ffurflen bapur yn gorfforol

**Ni fydd eich manylion talu yn cael eu cadw am fwy o amser nag sydd eu hangen at ddiben talu'r ffi.**

PSV350

## GWASANAETH COFRESTREDIG LLEOL YN LLOEGR CADARNHAU HYSBYSIAD AWDURDOD LLEOL PRO-FFORMA

Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r pro-fforma hwn i gadarnhau eu bod wedi derbyn copi o gais. Fel arall, gallant roi eu dull cadarnhau eu hunain i'r gweithredwr, ar yr amod bod yr un wybodaeth wedi'i chynnwys ynddo. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i'r gweithredwr amgáu'r cadarnhad gyda'r gais i'r comisiynydd traffig.

Mae angen i gomisiynwyr traffig fod yn fodlon y gall gweithredwr fodloni'r gofynion llwybr a gweithredol sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw Gynllun Partneriaeth Uwch. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r ffurflen hon i godi unrhyw bryderon a all gweithredwr fodloni'r gofynion llwybr a gweithredol a nodir mewn Cynllun Partneriaeth Uwch.

**Enw'r gweithredwr** ☐

**Rhif trwydded y gweithredwr** ☐

**Cyfeirnod cofrestru** ☐

**Math o gais** (ticiwch y blwch perthnasol)

☐ Newydd ☐ Amrywiad ☐ Canslo

**Rhif gwasanaeth** ☐

**Man cychwyn** ☐

**Man gorffen** ☐

**Dyddiad cychwyn y gofynnwyd amdano** ☐

**Dyddiad derbyn yn yr awdurdod lleol** ☐

**Enw'r awdurdod lleol** ☐

Rwy'n cadarnhau bod copi o'r cais/dogfennau ategol wedi cael eu derbyn (ticiwch os mai ydw yw'r ateb) ☐

Defnyddiwch y gofod isod i roi unrhyw sylwadau pellach i'r comisiynydd traffig ynghylch y cofrestriad. Os yw'r gweithredwr yn gwneud cais am grant cofrestriad byr rybudd, rhaid i chi hefyd nodi os ydych yn cefnogi'r cais neu peidio, a darparu manylion pam. Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.

**Dylai cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol ateb y cwestiynau canlynol:**

**Byr rybudd**

A yw'r awdurdod lleol yn cefnogi'r cais am fyr rybudd?

Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn berthnasol ☐

A yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol y gallai mater masnachol/cystadleuaeth godi os caniateir y cais am fyr rybudd?

Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Os Ydy, rhowch fanylion isod:

| |
|---|
| |

**Cynlluniau Partneriaeth Uwch**

Rwy'n cadarnhau bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod y gweithredwr yn gallu bodloni unrhyw ofynion llwybr neu weithredol o dan unrhyw Gynllun Partneriaeth Uwch perthnasol.

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Os Na, rhowch fanylion isod:

| |
|---|
| |

**Cynlluniau Masnachfreintio**

A yw'r gwasanaeth yn destun cyfnod rhybudd trosiannol ar gyfer cynllun masnachfreintio?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os Ydy, rhowch gadarnhad o'r cyfnod rhybudd perthnasol isod:

| |
|---|
| |

Rwy'n cadarnhau fod yr Awdurdod Lleol wedi cael ei hysbysu o'r cofrestriad arfaethedig yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (Cofrestru Gwasanaethau Lleol) 1986 a'u bod yn fodlon i'r cyfnod cofrestru ddechrau ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn (neu'r manylion cofrestredig os bydd y comisiynydd traffig yn eu derbyn ar ôl y ffurflen hon).

**Llofnodi** – cliciwch isod i lanlwytho llofnod electronig neu lofnodi'r ffurflen bapur yn gorfforol

**Dyddiad**

**Enw mewn PRIF LYTHRENNAU**

**Swydd a chadarnhad o enw'r awdurdod lleol**

Dylid darparu'r ffurflen wedi'i chwblhau i'r gweithredwr (naill ai'n electronig neu drwy'r post) i'w chyflwyno i'r Comisiynydd Traffig gyda'r manylion cofrestredig.